# YR ATODLENNI

## ATODLEN 2

### Diwygio Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

**7.** Yn Rhan 15 (darpariaethau amrywiol), ar ôl rheol 4 (datganiadau blynyddol o fuddion) mewnosoder—

"**Prisiadau actiwaraidd**

**4A.** Pan fo actiwari'r cynllun yn cyflawni prisiad o Gynllun 2015 ac mae'n ofynnol iddo gyflawni prisiad o'r Cynllun hwn, rhaid i'r awdurdod ddarparu i actiwari'r cynllun unrhyw ddata sy'n ofynnol gan actiwari'r cynllun er mwyn cyflawni prisiad a pharatoi adroddiad ar y prisiad."